Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glantwymyn

Cemmaes Road
Machynlleth
Powys
SY20 8LX

Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Glantwymyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Glantwymyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 78 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 63 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 93.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Tachwedd 2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/09/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy’n canolbwyntio ar greu amgylchedd cynhwysol, cartrefol a Chymreig yn Ysgol Glantwymyn. Mae’r ysgol yn meithrin cymuned deuluol lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel. Mae gan staff berthynas waith gadarn â'r disgyblion ac maent yn annog safonau uchel ac ymddygiad da yn effeithiol. Mae disgyblion yn dangos chwilfrydedd ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Trwy hyn, mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol.

Mae’r pennaeth yn hybu diwylliant o gydweithio parhaus ar draws y ffederasiwn yn llwyddiannus. Mae hyn yn ysgogi addysgu creadigol ac yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion drwy’r defnydd effeithiol o’r gymuned leol a chydweithio bwriadus â phartneriaethau allanol yn dda. Mae staff yn defnyddio’r celfyddydau i feithrin empathi a pharch tuag at amrywiaeth yn fedrus.

Mae disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd yn llwyddiannus, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn cyfathrebu’n hyderus ac aeddfed mewn ystod dda o gyd-destunau. Mae medrau darllen disgyblion yn cael eu datblygu’n effeithiol o’r cyfnod cynnar, gyda’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn darllen yn rhugl ac yn dangos cariad at ddarllen. Mae medrau ysgrifennu’r disgyblion yn datblygu’n gadarn. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn cefnogi'r disgyblion i gyflawni mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Mae adborth llafar athrawon yn effeithiol wrth gefnogi’r disgyblion i ymestyn eu dysgu, ond nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithredu ar y sylwadau i wella eu gwaith. Mae disgyblion yn cymryd rhan weithgar yn y gymuned leol. Yn gyffredinol, nid yw staff yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar weithgareddau sy’n ymwneud â’u dysgu.

Yn gyffredinol, mae staff yn darparu gweithgareddau sy’n cefnogi annibyniaeth disgyblion yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus ac yn dangos medrau cydweithio da, ac yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain. Er hyn, mae gor-arwain gan staff ar brydiau yn cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o brosesau hunanwerthuso i adnabod cryfderau’r ffederasiwn yn ogystal â’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cynnig cefnogaeth effeithiol i arweinwyr a staff, gan adnabod yr ysgolion a’u cymunedau yn dda.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a’r Saesneg

A2. Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella eu gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer tair ysgol y ffederasiwn sy’n seiliedig ar sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu mewn amgylchedd dysgu cynhwysol, cartrefol a Chymreig. Mae cymuned deuluol yr ysgol yn un lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel, a ble mae cwrteisi a pharch yn rhan annatod o’r berthynas waith gynhaliol sy’n bodoli rhwng y staff a’r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn dangos diddordeb chwilfrydig wrth wynebu profiadau dysgu newydd. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at gefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cyson dros amser.

Mae angerdd y pennaeth i sicrhau bod y disgyblion yn cael profiadau dysgu gwerthfawr er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn treiddio drwy bob agwedd o’r addysgu a dysgu. Mae’n gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer y ffederasiwn ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, y staff a’r disgyblion. Ar draws y ffederasiwn, mae’r penaethiaid cynorthwyol yn cydweithio’n bwrpasol ac yn ymroi’n llwyr i’r gwerthoedd cytûn, er enghraifft wrth ddarparu cwricwlwm cyffrous a phwrpasol sydd wedi ei wreiddio mewn hanes a diwylliant Cymru a’r byd ehangach i’r disgyblion.

### Ciplun: Darparu cyfleoedd ysgogol i ddatblygu creadigrwydd disgyblion

Mae staff yn darparu cyfleoedd ysgogol ac effeithiol i ddisgyblion ddatblygu a mynegi eu creadigedd mewn ystod eang o feysydd dysgu. Maent yn defnyddio cerddoriaeth a barddoniaeth o Gymru, a hanes pobl ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, i ysgogi trafodaethau ystyrlon a moesegol yn gelfydd. Mae tegwch a chyfiawnder yn cael eu trin a’u trafod yn sensitif trwy weithgareddau fel cyfansoddi, celf a dawns. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu empathi ac agwedd barchus tuag at amrywiaeth, ac yn dysgu cymharu agweddau a gwerthoedd diwylliannau eraill gyda'u hunaniaeth a’u gwreiddiau yn fwriadus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd o’u mannau cychwyn i’r ysgol. Wrth iddynt ddatblygu drwy’r ysgol, maent yn defnyddio geirfa a phatrymau iaith sy’n gynyddol fwy aeddfed, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn cyfathrebu’n effeithiol, gan sgwrsio’n hyderus ac aeddfed gydag oedolion.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy’n dal diddordeb y disgyblion mewn darllen o oedran cynnar ac yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer meithrin cariad at ddarllen. Erbyn brig yr ysgol, mae bron bob disgybl yn darllen testunau Cymraeg a Saesneg yn fedrus ac yn trafod y cynnwys yn ddeallus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Maent yn adeiladu ar fedrau’r disgyblion yn effeithiol wrth eu cefnogi i ddatblygu eu dealltwriaeth o eirfa fwy cymhleth. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn dangos brwdfrydedd wrth iddynt ymgymryd â’u gwaith ysgrifennu. Pant gânt gyfle i ysgrifennu’n fwy ymestynnol, mae eu brawddegau’n llifo’n naturiol ac maent yn defnyddio ansoddeiriau perthnasol, yn cynnwys cymariaethau diddorol a disgrifiadau manwl. Er hyn, nid yw’r ddarpariaeth yn cefnogi'r disgyblion i gyflawni mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac adeiladu ar eu medrau mathemategol yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Maent yn datblygu amrediad eang o gysyniadau mathemategol yn gadarn ac yn eu cymhwyso’n fedrus mewn ystod dda o gyd-destunau diddorol. Trwy ddysgu proffesiynol staff a rhannu arferion addysgu a dysgu effeithiol rhwng ysgolion y ffederasiwn, mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus a thasgau cyfoethog i ddisgyblion. Mae hyn yn golygu bod y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a digidol yn gadarn ar draws y cwricwlwm.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn holi’r disgyblion am eu dysgu yn fedrus ac maent yn eu hannog i feddwl ac i ddatrys problemau’n gynyddol annibynnol. Mae staff yn addasu’r cwestiynau i ddiwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus, sydd, yn ei dro, yn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Ar y cyfan, mae staff yn darparu gweithgareddau sy’n meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus i’r cyfleoedd hyn ac yn cydweithio a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain yn effeithiol. At ei gilydd, mae tuedd i staff or-arwain y dysgu sydd yn cyfyngu ar allu’r disgyblion i ddysgu’n gynyddol annibynnol.

Mae gan staff adnabyddiaeth gadarn o anghenion emosiynol a dysgu pob disgybl. Maent yn darparu gweithgareddau sy’n diwallu eu hanghenion yn dda, gan gynnwys y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff cymorth yn herio a chefnogi’r holl ddisgyblion i ddysgu yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, maent yn gwybod pryd i gefnogi a phryd i gamu’n ôl a gadael i’r disgyblion wneud camgymeriadau, trafod dulliau gwella ac i gyd-ddysgu gyda’i gilydd.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar effeithiol sy’n rhoi arweiniad priodol i ddisgyblion ar beth i’w wella yn eu gwaith a sut i’w wella.  Mae disgyblion yn gwerthuso eu cynnydd personol a gwaith eu cyfoedion yn unol â gofynion y tasgau yn briodol. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i’r sylwadau er mwyn gwneud gwelliannau. Yn y cyfleoedd prin i wella gwaith, nid yw gwaith y disgyblion yn dangos digon o gynnydd bob amser.

Mae disgyblion yn datgan bod oedolion yn gwrando’n dda ar eu barn ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Nodwedd gref yw'r modd mae staff yn cydweithio i drefnu a chefnogi ymgyrchoedd amrywiol yn y gymuned, fel wrth gefnogi elusennau a chyfrannu at wella’r amgylchedd yn yr ardal leol. Yn gyffredinol, nid yw staff yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar weithgareddau sy’n ymwneud â’u dysgu.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau’r ffederasiwn a’i feysydd i’w gwella drwy brosesau hunanwerthuso effeithiol. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod yr ysgolion a’r cymunedau yn dda ac yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth unigol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2025